



Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Canllawiau Chwilfrydedd Proffesiynol

Dyddiad Adolygu	Diwygiwyd gan	Dyddiad cymeradwyo	
08/11/2021	Grŵp P a P	P a P	31/01/2022
		Adolygu	31/01/2025

1.0. **Rhagarweiniad**

1.1. Mae chwilfrydedd proffesiynol yn thema sy'n dod i'r amlwg yn yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac adolygiadau eraill a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru, a chaiff y canfyddiad hwn ei adlewyrchu'n genedlaethol. Mae wedi cael ei gydnabod fel cysyniad pwysig o fewn Gwasanaethau Plant ers amser maith, ond mae hefyd yn berthnasol ar gyfer gwaith gydag oedolion.

2.0. **Beth yw chwilfrydedd proffesiynol?**

2.1. Y gallu a'r sgil cyfathrebu i archwilio a deall beth sy'n digwydd gydag unigolyn neu deulu yw chwilfrydedd proffesiynol. Mae'n ymwneud ag ymchwilio'n ddyfnach a defnyddio dulliau cwestiynu a herio rhagweithiol. Mae'n ymwneud â deall cyfrifoldeb eich hunan a gwybod pryd i weithredu, yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau ar yr ymddangosiad cyntaf.

3.0. **Rhwysterau i chwilfrydedd proffesiynol**

3.1. Mae'n bwysig nodi, pan fo diffyg chwilfrydedd proffesiynol wedi'i nodi fel ffactor mewn digwyddiad trasig, nid yw hynny'n golygu y dylid taflu bai yn awtomatig. Cydnabyddir yn eang bod nifer o rwystrau i fod yn broffesiynol chwilfrydig. Amlinellir rhai o'r rhwystrau i arferion chwilfrydedd proffesiynol isod.

➤ ***Cydymffurfiaeth Gudd***

Bydd aelod o deulu neu ofalwr yn ymddangos eu bod yn cydymffurfio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn osgoi amheuan, i dawelu pryderon gweithwyr proffesiynol, ac yn y pen draw, lliniaru ymyrraeth gweithwyr proffesiynol. Mae'n rhaid i ni sefydlu'r ffeithiau a chasglu tystiolaeth am beth sy'n digwydd mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr unigolyn.

➤ ***Y 'Rheol Optimistiaeth'***

Mae galluogi risg yn ymwneud â dull yn seiliedig ar gryfderau, ond nid yw hyn yn golygu na ddylid cymryd risgiau newydd neu risgiau sy'n cynyddu o ddifri. Mae'r '**rheol optimistiaeth**' yn ddynnameg adnabyddus lle mae gweithwyr proffesiynol yn tueddu i resymoli yn erbyn risgiau newydd neu risgiau sy'n cynyddu er bod tystiolaeth yn awgrymu'r gwrthwyneb.

➤ ***Risgiau cronnus - gweld y darlun llawn***

Mae adolygiadau'n dangos dro ar ôl tro bod gweithwyr proffesiynol yn tueddu i ymateb i bob sefyllfa neu risg newydd ar wahân, yn hytrach nag asesu gwybodaeth newydd o fewn cyd-destun cyflawn yr unigolyn neu ystyried effaith gronnus cyfres o ddigwyddiadau a gwybodaeth.

➤ **Normaleiddio**

Mae hyn yn cyfeirio at brosesau cymdeithasol lle mae syniadau a gweithredoedd yn cael eu hystyried yn 'normal' ac yn cael eu cymryd yn ganiataol neu'n 'naturiol' mewn bywyd bob dydd. Gan eu bod yn cael eu hystyried fel pethau 'normal', nid yw gweithwyr proffesiynol yn eu cwestiynu ac felly nid ydynt yn cael eu cydnabod fel risgiau posibl nac yn cael eu hasesu.

➤ **Ildio proffesiynol**

Mae'r gweithwyr sydd wedi ymwneud fwyaf ag unigolyn mewn sefyllfa dda i gydnabod pan fydd risgiau i'r unigolyn yn cynyddu. Fodd bynnag, mae tueddiad i ildio i farn gweithiwr proffesiynol 'uwch' nad ydynt wedi ymwneud llawer â'r unigolyn, ond sy'n credu bod y risg yn llai sylweddol. *Byddwch yn hyderus yn eich barn ac amlinellwch eich sylwadau a'ch pryderon i weithwyr proffesiynol eraill, byddwch yn ddewr a heriwch eu barn am risgiau os nad ydych chi'n cytuno gyda nhw.* Dylech uwchgyfeirio pryderon parhaus i'ch rheolwr a defnyddio'r canllawiau ymarfer Datrys Gwahaniaethau Gweithwyr Proffesiynol.

➤ **Gogwydd cadarnhau**

Mae hyn yn cyfeirio at pan rydym yn chwilio am dystiolaeth i gefnogi neu gadarnhau ein rhagdybiaethau, ac yn anwybyddu gwybodaeth sy'n mynd yn groes i hynny. Mae hyn yn digwydd pan fyddwn yn hepgor ffeithiau a barn ddefnyddiol nad ydynt yn cyd-fynd â'n syniadau rhagdybiedig.

➤ **'Gwybod ond heb wybod'**

Mae hyn yn ymwneud â'r ymdeimlad o wybod bod rhywbeth o'i le, ond heb fedru nodi'n iawn beth sydd o'i le, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i'r ymarferwr ddeall y broblem a chymryd y camau gweithredu priodol.

➤ **Hyder yn rheoli tensiwn**

Gall anghytundebau, amhariadau a thrais gan deuluoedd neu eraill gael effaith ar hyder a thynnu sylw ymarferwyr oddi ar y pynciau y mae arnynt eisiau eu harchwilio yn ystod cyfarfodydd a'u harwain i ddilyn agenda'r teulu yn hytrach.

➤ **Ymdrin ag ansicrwydd**

Mae herio adroddiadau, datganiadau aneglur neu ddatganiadau a gaiff eu tynnu'n ôl, twyll a thystiolaeth feddygol amhendant yn gyffredin mewn arferion diogelu. Yn aml iawn, cyflwynir pryderon sy'n amhosibl eu cyfiawnhau i ymarferwyr. Mewn

sefyllfaoedd o'r fath, 'mae temtasiwn i ddiystyru pryderon na ellir eu profi.'

Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ystyried y pryder gwreiddiol a bod yn broffesiynol chwilfrydig.

- Ni ddylai pryderon na ellir eu cyfiawnhau a thystiolaeth feddygol amhendant arwain at gau achosion heb asesiadau pellach.
 - Mae'n rhaid i honiadau a gaiff eu tynnu'n ôl gael eu hymchwilio lle bynnag y bo modd.
 - Gall y defnydd o adnoddau asesu risg leihau ansicrwydd, ond ni ddylid ei ystyried fel dewis amgen i farn broffesiynol. Mae'n rhaid i ganlyniadau a sylwadau gael eu casglu yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill.
 - Mae ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gyfrifol am driongli gwybodaeth megis, ceisio cadarnhad annibynnol o wybodaeth, a phwyso a mesur gwybodaeth gan ystod o ymarferwyr, yn arbennig pan fo adroddiadau'n gwrthgyferbynnu, ac ystyried theorïau ac ymchwil gwahanol er mwyn deall y sefyllfa.
- ***Rhwystrau eraill i chwilfrydedd proffesiynol***
Mae diffyg goruchwyliaeth, cymhlethdod a phwysau gwaith, newidiadau i weithwyr achos sy'n arwain at orfod 'dechrau eto' sawl gwaith gydag achos, cau achosion yn rhy gynnar, syniadau a gwerthoedd rhagdybiedig / syniadau sefydlog, a diffyg natur agored mewn perthynas â gwybodaeth newydd hefyd yn rhwystrau i ddull proffesiynol chwilfrydig.

4.0. **Pam bod chwilfrydedd proffesiynol yn bwysig: dysgu o adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Achos**

Atgyfeiriad i'r Grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion

Derbyniwyd atgyfeiriad gan ddarparwr gofal preswyl yn nodi bod unigolyn wedi cael ei wthio gan breswilydd arall, nid oedd unrhyw anafiadau. Roedd yn ymddangos i ddechrau fel nad oedd yna lawer o risg ynghlwm â'r digwyddiad hwn, gydag argymhelliad i'r darparwr gofal reoli'r achos, ac nid oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad A126. **Fodd bynnag, roedd gwriad o gofnodion y cyflawnwr, yr unigolyn a gafodd ei wthio, a'r darparwr gofal, yn dangos bod gan y cyflawnwr hanes o ddigwyddiadau yn erbyn y 'dioddefwr' presennol yn ogystal â phreswylwyr eraill.** Roedd y cofnodion yn dangos bod y 'dioddefwr' wedi profi sawl ymosodiad gan y cyflawnwr a phreswylwyr eraill, felly roedd yn rhaid ceisio sicrwydd gan y darparwr bod y sefyllfa'n cael ei rheoli..

Fe wnaeth gwiriad o gofnodion y darparwr ddangos hanes o bryderon diogelu a sicrwydd ansawdd.

Mae'r elfennau hyn yn cynyddu'r risg i'r unigolyn sy'n destun y pryder diogelu diweddaraf. Byddai gwirio hanes achosion a nodi cysylltiadau rhwng digwyddiadau sy'n ymddangos yn amherthnasol i ddechrau'n enghraifft o chwilfrydedd proffesiynol a nodi **risg 'gronol'**.

Mrs BB

Cwblhawyd yr Adolygiad Diogelu Oedolion (Rhagfyr 2016) ar gyfer Mrs BB yn Norfolk. Roedd Mrs BB yn ddynes hŷn â dementia, roedd hi wedi dechrau cerdded o amgylch y dref yn amlach nag arfer, ac ymweld â'i gŵr yn ei gartref gofal. Roedd Mrs BB yn mynd ar goll yn rheolaidd. Byddai hi'n gofyn i bobl am lifft a chymorth i groesi'r ffordd, a byddai'r Heddlu'n mynd â hi adref yn rheolaidd, ond nid oedd yr ASD yn cael gwybod am yr achosion hyn. Ystyriwyd bod cerdded yn 'normal' iddi hi, ac ni ystyriwyd ei harferion yng nghyd-destun ei sefyllfa hollataidd h.y. ei diagnosis o dementia, nifer o weithiau yr oedd hi'n mynd ar goll, y peryglon a oedd ynghlwm â'i thueddiadau i 'grwydro' o amgylch y dref. Mae hyn yn enghraifft o '**normaleiddio**'.

Oedolyn H

Cwblhawyd yr Adroddiad Diogelu Oedolion hwn gan Fwrdd Diogelu Oedolion Swydd Nottingham. Roedd Oedolyn H, 21 oed, wedi derbyn diagnosis o Spina Bifida a Hydroseffalws. Gwnaethpwyd atgyfeiriad diogelu oedolion gan y gwasanaeth ambiwlans yn dilyn llosgiadau difrifol. Roedd Oedolyn H wedi colli 14% o'i chroen ac roedd ganddi glwyfau cronig a oedd yn arwydd o losgiadau wrin. Roedd trosglwyddiad Oedolyn H i ofal oedolion yn dangos diffyg gwaith amlasiantaeth. Ni roddwyd digon o sylw i'w diffyg presenoldeb mewn apwyntiadau meddygol.

Roedd diffyg ymgysylltiad y teulu'n rhwystro'r broses ddiogelu dro ar ôl tro ac nid oedd hyn yn cael ei uwchgyfeirio gan weithwyr proffesiynol. Roedd Oedolyn H bob amser yn cael ei gweld gyda'i mam, sy'n dangos nad oedd hi'n cael cyfle i leisio ei barn ei hun.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys adolygiad o brosesau pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, creu polisi hunan-esgeuluso amlasiantaeth a pholisi uwchgyfeirio amlasiantaeth. Bydd canllawiau'n cael eu darparu ar sut i ymdrin â phobl sy'n gwrthod derbyn gwasanaeth. Mae'r achos hwn yn enghraifft o '**gydymffurfiaeth gudd**' gan aelodau'r teulu.

Matthew Bates a Gary Lewis

Roedd dau ddyn, un yn 30 oed a'r llall yn 63 oed, ag anabledau dysgu, parlys yr ymennydd ac Osteoporosis yn byw yn yr un cartref gofal yng Ngorllewin Sussex,

cafodd y ddau eu derbyn i'r ysbyty a chanfuwyd eu bod wedi torri asgwrn yn eu cluniau. Tybiwyd eu bod wedi dioddef yr anafiadau hyn wrth gael eu symud a'u trin ac ni wnaethpwyd atgyfeiriad diogelu. Daeth yr Adroddiad Diogelu Oedolion i'r canlyniad y dylai amgylchiadau'r anafiadau hyn a datganiad yr ymgynghorydd fod wedi arwain at adroddiad i'r heddlu gan yr ysbyty. Pe bai dau o blant wedi'u hanafu fel hyn, nid oedd gan yr awdur unrhyw amheuaeth y byddai'r heddlu wedi cael gwybod ar unwaith.

Mae'r achos hwn yn dangos bod yr ymagwedd mewn perthynas ag anafiadau i bobl ddiameddiffyn yn wahanol, sy'n rhoi oedolion mewn perygl.

Tybiwyd yn fuan iawn mai symud a thrin oedd yr eglurhad amlwg, ac ni chafodd hyn ei herio mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod **'gogwydd cadarnhau'** wedi lleihau'r chwilfrydedd proffesiynol, gan arwain at fethiant i ystyried posibiliadau eraill.

Pobl ddigartref

Mewn adolygiad o Adroddiadau Diogelu Oedolion mewn perthynas â marwolaethau pobl ddigartref a gwblhawyd gan y King's College, Llundain (2019), nodwyd bod:

Rhai o'r Adolygiadau Diogelu Oedolion hyn yn mynegi pryder am yr hyn a elwir yn chwilfrydedd proffesiynol ymhlith gweithwyr proffesiynol. Roedd hyn yn amrywio o ddiffyg diddordeb yn 'hanes' yr unigolyn diameddiffyn, methiant i nodi patrymau yn hanes bywyd yr unigolyn a allai fod wedi sbarduno rhybudd diogelu... mae'n bosibl bod chwilfrydedd yn cael ei atal yn sgil y risgiau ariannol neu gyfreithiol i'r sefydliad a allai fod ynghlwm â chymryd 'perchnogaeth' dros achos.

5.0. Datblygu sgiliau chwilfrydedd proffesiynol

5.1. Mae'r canlynol yn seiliedig ar ganllawiau gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru mewn perthynas â gwaredu rhwystrau i chwilfrydedd proffesiynol:

- Byddwch yn hyblyg ac yn agored, peidiwch â derbyn pethau ar yr ymddangosiad cyntaf. Gwiriwch eich cyflwr emosiynol a'ch ymagwedd eich hunan. Neilltuwch amser i baratoi eich hunan ar gyfer rheoli risg ac ansicrwydd, a phrosesu'r effaith y mae'n ei chael arnoch chi.
- ***Dychmygwch yr Annychmygol; Credwch yr Anghredadwy. Ystyriwch sut y gallwch fynegi 'greddf' mewn barn broffesiynol yn seiliedig ar dystiolaeth.***
- Defnyddiwch eich sgiliau cyfathrebu: adolygu cofnodion, cofnodi'n gywir, gwirio ffeithiau a darparu adborth i'ch cydweithwyr a'r bobl yr ydych yn gweithio iddynt. Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau a byddwch yn wylidwrus o ragdybiaethau sydd eisoes yn bodoli.

- Defnyddiwch hanes achosion ac archwiliwch y wybodaeth gan yr unigolyn ei hun, eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill (triongli).
- Dylech roi gymaint o sylw i edrychiad ac ymddygiad pobl â'r hyn y maent yn ei ddweud.
- Dylech geisio eu hymgysylltiad llawn drwy'r amser. Os oes arnoch chi angen rhagor o gefnogaeth i ymgysylltu â'r unigolyn neu eu teulu, meddyliwch pwy yn y rhwydwaith allai eich helpu chi. Ystyriwch alw cyfarfod amlasiantaeth i gael cefnogaeth gan asiantaethau eraill.
- Cymerwch gyfrifoldeb dros eich rôl diogelu, waeth pa mor fach neu fawr, ym mywyd yr unigolyn o'ch blaen.

Mae chwilfrydedd proffesiynol yn debygol o ddatblygu pan fydd ymarferwyr yn:

- Mynychu hyfforddiant o ansawdd uchel i'w helpu i ddatblygu.
- Cael mynediad at gefnogaeth a goruchwyliaeth rheoli da.
- Cydymdeimlo gyda (rhoi eu hunain yn esgidiau) yr unigolyn i ystyried y sefyllfa o'u safbwynt nhw.
- Parhau i fod yn ddiwyd wrth weithio gyda'r unigolyn a'u rhwydwaith/teulu, datblygu perthnasoedd proffesiynol i ddeall beth sydd wedi digwydd a'i effaith ar bawb sydd ynghlwm â'r achos.
- Ceisio gweld yr unigolyn ar wahân.
- Gwrando ar bobl sy'n siarad ar ran yr unigolyn ac yn cynnig gwybodaeth bwysig amdanynt.
- Gwyliadwrus o'r rheiny sy'n atal gweithwyr proffesiynol rhag gweld neu wrando ar yr unigolyn.
- Osgoi dibynnu ar farn un unigolyn, lle bynnag y bo modd.
- Defnyddio dull dadansoddol a myfyriol.
- Datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i gynnal sgysiau anodd.

6.0 **Cynnal sgysiau anodd a herio**

6.1. Ystyrir bod mynd i'r afael ag anghytundebau neu elyniaeth, codi pryderon neu herio, a throsglwyddo gwybodaeth nad yw'r derbynnnydd yn debygol o fod eisiau ei chlywed yn bethau anodd iawn i'w gwneud.

6.2. Gweler y cynghorion canlynol ar sut i gael sgysiau anodd gyda phobl.

- Cynlluniwch ymlaen llaw i sicrhau fod gennych ddigon o amser i drafod elfennau hanfodol y sgws.
- Sicrhewch fod y rhaglen yn canolbwyntio ar y pynciau sydd angen eu trafod. Byddwch yn glir ac yn bendant.
- Byddwch yn ddewr gan sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr

gwasanaeth.

- Peidiwch â thafllu bai ac ymddwyn mewn modd gwrthdrawiadol, cadwch at y ffeithiau.
- Sicrhewch fod gennych dystiolaeth i gefnogi'r hyn sydd gennych i'w ddweud. Sicrhewch fod eich penderfyniadau'n gyfiawn ac yn dryloyw.
- Dangoswch empathi, ystyriaeth a chydymdeimlad - byddwch yn agored ac yn onest.
- Byddwch yn gyson h.y. sicrhewch fod ton eich llais, iaith eich corff a'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn gyson.
- Ceisiwch gydnabod eich 'teimladau greddf', gan rannu'r rhain gyda gweithwyr proffesiynol eraill, a cheisio tystiolaeth.
- Ceisiwch ddeall elfennau a dangosyddion unrhyw newid mewn ymddygiad.
- Defnyddiwch amheuaeth iach.
- Sicrhewch eich bod yn deall cymhlethdodau cydymffurfiaeth gudd.
- Defnyddiwch eich crebwyll proffesiynol.

Peidiwch â bod ofn gofyn y cwestiwn amlwg a rhannu pryderon gyda chydweithwyr a rheolwyr. Gall cyflwyno pâr newydd o lygaid i achos helpu ymarferwyr a sefydliadau i gynnal ffocws clir ar arferion da ac asesiadau risg a datblygu meddylfryd beirniadol.

7.0. **Sut gall rheolwyr gefnogi arferion proffesiynol chwilfrydig**

7.1. Gall rheolwyr gynyddu cyfleoedd ar gyfer arferion proffesiynol chwilfrydig drwy:

- Gynnig dadleuon yn erbyn - gofyn cwestiynau 'beth os?' i herio a chefnogi ymarferwyr i feddwl yn ehangach am achosion. Cwestiynu p'un a yw canlyniadau wedi gwella ar gyfer yr unigolyn a thystiolaeth o hyn.
- Cyflwyno hypothesis amgen am beth allai ddigwydd.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer goruchwyliaeth grŵp a allai helpu i ysgogi dadleuon a chwestiynu chwilfrydig, a chaniatáu i ymarferwyr ddysgu gan brofiadau ei gilydd. Fe allai'r materion a ystyrir mewn un achos gael eu hadlewyrchu mewn achosion eraill ar gyfer aelodau eraill o'r tîm.
- Cyflwyno achosion o safbwynt aelodau eraill o'r teulu neu weithwyr proffesiynol eraill.
- Gofyn i ymarferwyr sut wnaethant gyrraedd eu casgliad a'u cefnogi i feddwl am y dystiolaeth.
- Monitro llwythi gwaith ac annog ymarferwyr i'w trafod a'u cefnogi i fynd i'r afael ag unrhyw straen neu bwysau gwaith. Cefnogi ymarferwyr i gydnabod pan maent wedi blino neu angen pâr newydd o lygaid i edrych ar achos.

